CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 4ydd o Fawrth 2026 am 7.30yh yn Neuadd Dinas Mawddwy.**

Presennol; Cyng. John P Jones, Sion Alun Roberts, Rhys Davies, Berwyn Harding, Wyn Lewis, Catrin Jones Johnson, Idris Jones, Lynne Mcrickett a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones.** Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Arfon Hughes a Cyng John P Roberts, a darllenwyd e-bost gan y ddau.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr agenda.
3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar yr 21ain Ionawr 2026 ar gynnig Cyng. Lynne Mcrickett a'i eilio gan Cyng Idris Jones.
4. **Materion yn codi**

a) **Materion Priffyrdd/Cefnffyrdd** – adroddwyd ymatebion i faterion Priffyrdd ers y tro diwethaf.
Yng nghyswllt **Maes Parcio Plas, Dinas** – darllenwyd ymateb pellach Cyngor Gwynedd ynglyn a cael arwyddion, ond yn anffodus roedd rhaid cyllido o'r Cyngor Cymuned.
Diolchwyd i Cyng Catrin Johnson am roi y tybiau concrit o flaen y gofgolofn i leihau difrod i'r tir yno. Nodwyd angen i'w symud ychydig i mewn i'r tir. Trafodwyd pwy oedd a chyfrifoldeb am y darn yma o dir, ond ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding, penderfynwyd eu gadael yno am y tro.

b) **Dyfodol Eglwys Llanymawddwy –** nid oedd unrhyw datblygiadau i'w hadrodd.

**c) Pwyllgor yr Hen Fynwent** – nid oedd gwybodaeth am neb fyddai yn fodlon bod yn ymddiriedolwr, ac roedd Cyng John P Roberts wedi cadarnhau hyn hefyd. Nodwyd nad oedd hwn yn fater i'r Cyngor Cymuned prun bynnag.

d) **Safle y gofgolofn yn Minllyn** – nid oedd unrhyw wybodaeth pellach i law.

e) **Cynllun 'Gwynedd Ni'** – cronfa Cynghorau tref/Cymuned - adroddodd y Clerc fod y cyfan yn awr wedi ei gwbwlhau a'r arian grant wedi ei hawlio. Roedd e-bost gan Alys Rees Jones yn cadarnhau fod pob dim wedi ei wneud.

Adroddwyd fod Pwyllgor Neuadd Dinas Mawddwy yn canmol y potiau blodau, a oedd yn welliant mawr, ac yn harddu'r Neuadd.

Diolchodd y Cadeirydd John P Jones i bawb oedd wedi helpu i neud y gorau o'r arian ddaeth o'r Gronfa yma. Roedd hyn wedi cyfrannu llawer i'r ardal. Ond dywedodd nad oedd yn hapus efo beth oedd wedi digwydd ers y cyfarfod dwetha efo hyn

Dywedodd y Cadeirydd fod y Clerc wedi danfon i bawb canol Rhagfyr yn dweud ein bod wedi cael estyniad i ddiwedd Ionawr, ond yn pwysleisio y dylai pob dim fod wedi wneud cyn hynny. Ar y 21ain Ionawr yn y cyfarfod diwethaf, doedd y gwaith prin wedi dechre. Penderfynnwyd felly yn cyfarfod Ionawr i ofyn rhywun arall neud y gwaith yma, gan fod yn ymddangos nad oedd Cyng Arfon Hughes heb weithredu ers cyfarfod Rhagfyr. Roedd Cyng John Pughe Roberts wedi dweud y byddai yn cael gair efo Arfon, ond er siarad ag ef, ddigwyddodd hyn ddim. Yna cafwyd sicrwydd y byddai y cyfan wedi ei wneud cyn diwedd Ionawr, ond ddigwyddodd hyn ddim eto, treuliodd o

fel Cadeirydd tipyn o amser efo'r mater, a gofyn ir Clerc gael estyniad arall, sawl tro. Roedd trafferthion cysylltu, a'r holl fater wedi creu gwaith di-angen.

Eglurodd y Cadeirydd ymhellach, sef ar y 16eg o Chwefror roedd Cyng Arfon Hughes wedi creu grwp e-bost i'r Cyngor, ond peidio cynnwys y Clerc, a mynegwyd siom fawr am hyn. Roedd yn ymddangos yn glir fod hyn yn fwriadol. Yna danfonodd y Clerc e-bost i bawb 19 Chwefror yn dweud beth oedd ei gyfrifoldebau, a pha mor annerbyniol oedd hyn, a bod rhaid ei gynnwys i'r dyfodol. Ond ni chafwyd ymddiheuriad, a danfonodd Arfon eto i bawb ar y 25ain Chwefror a pheidio cynnwys y Clerc.

Dywedodd y Cadeirydd nad oed gan neb hawl i wneud gwaith ar ei liwt ei hun heb ymgynghori /cadw pawb o'r Cyngor mewn cyswllt, drwy gopio pawb i fewn mewn e-bost ayyb, ac na ddylai hyn fod yn anodd. Roedd y cyfan yn is-raddio ac iselhau y Clerc,a oedd yn annerbyniol. Dywedodd eiriau caredig am y Clerc, oedd yn gwneud gwaith cywir bob tro. Roedd diffyg parch at eraill yn amlwg. Ni ddylai neb deimlo eu bod uwchlaw rheolau a chyfraith. Rhaid i bawb weithio fel tîm, ac os bydd cynllun tebyg eto, ni ddylid gadael unrhyw fater i un Cynghorydd.
Mynegwyd siom fawr gan bawb, ac na ddylid dioddef math yma o sefyllfa. Ar gynnig Cyng Catrin Jones a'i eilio gan Cyng Wyn Lewis a chyda chefnogaeth unfrydol, gwelwyd bod rhaid cael cyngor ar sut i ymdrin a hyn, gan gynnwys o bosib gofyn i Swyddog Safonnau Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd ymhellach i ofyn i is-bwyllgor ymdrin a hyn, sef y Cadeirydd John P Jones, yr Is-Gadeirydd Sion Alun Roberts a Cyng Wyn Lewis. Gwelwyd fod rhaid hysbysu Arfon o'r sefyllfa.

f) **Coed ger 1 Bryn Dyfi, Dinas Mawddwy –** roedd y cyfan yn nwylo Adran Pridiannau Tir Lleol Cyngor Gwynedd, a darllenwyd yr ymateb diweddaraf.

**5.Materion Cynllunio**

**Roedd dau gais i law, sef**

- **NP5/74/5D –** Amnewid ffenestri a drysau dianc mewn argyfwng allanol newydd, gosod pwmp gwres ffynhonnell aer, a golau allanol yn **Ormiston Forge Mountain Centre, Dinas Mawddwy SY20 9LU.**

Roedd hwn wedi ei ddosbarthu eisoes. Pendefynwyd bod y Cyngor yn gefnogol i'r cais, oherwydd byddai yn welliant i'r adeilad, ac yn arbed ynni.

- **NP5/74/252D** – Gosod ynysiad wal allanol – **Neuadd Bentref Dinas Mawddwy.**

Pendefynwyd bod y Cyngor eto yn gefnogol i'r cais, oherwydd byddai yn gwella golwg allanol yr adeilad, yn arbed ynni, ac yn fudd sylweddol i'r ardal. (cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Catrin Johnson, Sion Alun Roberts, Wyn Lewis a Lynne Mcrickett)

- Ymgynghoriad cyn cais – Safle mast ffon symudol yn **Pennantigi Uchaf, Dinas Mawddwy.**

Roedd hwn wedi ei ddosbarthu eisoes. Cadarnhawyd fod y Cyngor yn gefnogol i'r cais, gan y byddai o fudd i'r ardal.

**6.Materion Cyllid.**

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon,** (4.03.26), sef Cyfri Cyfredol £6530.00, Cyfri Claddedigaeth £1473.00 Cyfri Cadw £800.91.

Cadarnhawyd benodiad uned Archwilio Cyngor Gwynedd fel Archwilydd mewnol ar gyfer cyfrifon 2025-26.

Cadarnhawyd nad oedd neb a oedd yn bresennol yn dymuno hawlio treuliau am y flwyddyn 2025-26.

b) **Anfonebau i'w talu – cytunwyd ar gynnig Cyng Sion Alun Roberts a'i eilio gan Cyng Lynne Mcrickett, i dalu'r canlynol;**

- E W Owen a'i Chwmni (Cyfrifwyr) – gwaith PAYE/P60 - £252.00
- Cyflog chwarter olaf y Clerc £485.04 a HMRC £121.20. Hefyd costau am y flwyddyn £1250 fel yn arferol.

c) **Ceisiadau am arian – ar gynnig Cyng Cyng Catrin Johnson a'i eilio gan Cyng Berwyn Harding penderfynwyd fel a ganlyn;**

  - Cylch Meithrin Dolybont - £1000 (diolchwyd am y fantolen i law)
- Clybiau Ffermwyr Ieuainc Meirion - £200
  - Eisteddfod y Groglith, Dinas Mawddwy - £500

**Penderfynwyd ar gynnig Cyng Idris Jones a'i eilio gan Cyng Rhys Davies fel a ganlyn;**

  - Neuadd Dinas Mawddwy - £1000 (cafwyd datganiad o ddiddordeb gan Cyng Catrin Johnson, Sion Alun Roberts, Wyn Lewis a Lynne Mcrickett)
  - Neuadd Aberangell - £500. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Berwyn Harding)

**7.Gohebiaeth.**

**a)** Nodwyd sesiynau Hyfforddiant Un Llais Cymru – byddai'r Clerc yn danfon y diweddaraf.

**b)** Amddiffyn Gwasanaethau Bronglais – nodwyd y gohebiaeth diweddaraf a oedd wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr.

***c)*** Cynllun Datblygu Lleol Eryri – galw am safleoedd posib - nodwyd y gohebiaeth oedd wedi ei ddanfon allan i'r Cynghorwyr.

d) Nodwyd digwyddiad Dathlu Gwlan yn Gwersyll yr Urdd, Glanllyn, ar y 6ed o Fawrth am 1pm.

e) Roedd gohebiaeth i law gan Alys Rhys Jones o Gyngor Gwynedd yn dweud bod cronfa 'Gwynedd Ni' yn ail-agor 4ydd Mawrth tan 15fed Mehefin – gyda'r holl waith i'w gwbwlhau eto erbyn y dyddiad cau o'r 31 Rhagfyr. Byddai'r Clerc yn ei ddosbarthu.

**8. Unrhyw Fater arall.**

a) Adroddwyd y diweddaraf am adroddiadau o faw cŵn ar gae yr Ysgol yn Dinas. Roedd posibilrwydd mai baw o fywyd gwyllt oedd hyn, gan fod ffens derfyn oddiamgylch. Cadarnhwyd mai mater i'r ysgol oedd hyn.

b) Roedd nifer o dyllau yn y ffordd rhwng Boncyn a'r Felin.

c) Roedd y 3 arhosfan bws wedi cael sylw, a diolchwyd yn fawr i bawb.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; CYFARFOD BLYNYDDOL, NEUADD DINAS MAWDDWY NOS FERCHER 13eg o Fai 2026, 8.00 y.h.**